# Cofnodion cryno - Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Lleoliad: **Hybrid – Ystafelloedd Pwyllgora 1 a 2 a Chynhadledd Fideo drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Mercher, 7 Rhagfyr 2022

Amser: 09.32 - 12.28

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn: http://senedd.tv/cy/13062

# Hybrid

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Paul Davies AS (Cadeirydd)<br>Hefin David AS<br>Luke Fletcher AS<br>Vikki Howells AS<br>Samuel Kurtz AS<br>Sarah Murphy AS |
| Tystion: | Vaughan Gething AS, Gweinidog yr Economi<br>Sioned Evans, Llywodraeth Cymru<br>Duncan Hamer, Llywodraeth Cymru<br>Andrew Gwatkin, Llywodraeth Cymru<br>Helen John, Llywodraeth Cymru<br>David Chapman, UK Hospitality Cymru<br>Leighton Jenkins, CBI Cymru<br>Sara Jones, Consortiwm Manwerthu Cymru<br>Gwyneth Sweatman, Federation of Small Businesses (FSB) |

| | |
|---|---|
| Staff y Pwyllgor: | Llinos Madeley (Clerc)<br>Sarah Bartlett (Dirprwy Glerc)<br>Aled Evans (Cynghorydd Cyfreithiol)<br>Gareth David Thomas (Ymchwilydd)<br>Joseph Thurgate (Ymchwilydd) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod.

1.2 Ni chafwyd ymddiheuriadau na datganiadau o fuddiant.

## 2 Papurau i'w nodi

2.1 Cafodd y papurau eu nodi.

**2.1 Llythyr gan y Cadeirydd at y Prif Weinidog**

**2.2 Llythyr gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a’r Trefnydd**

**2.3 Llythyr gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a’r Trefnydd**

**2.4 Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd**

**2.5 Llythyr at Weinidog yr Economi**

**2.6 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad at y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a’r Trefnydd**

**2.7 Llythyr gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a’r Trefnydd**

**2.8 Llythyr gan y Cadeirydd at y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a’r Trefnydd**

## 3 Craffu Cyffredinol ar Waith y Gweinidog: Gweinidog yr Economi

3.1 Craffodd y Pwyllgor ar waith Gweinidog yr Economi.

3.2 Cytunodd y Gweinidog i ddarparu rhagor o wybodaeth i'r Pwyllgor am y trafodaethau sy'n digwydd gyda phobl ifanc, yn dilyn cyhoeddi’r adroddiad blynyddol gwarant pobl ifanc yn y flwyddyn newydd.

3.3 Cytunodd y Gweinidog i ddarparu nodyn ar brentisiaethau gradd a’u datblygiad yn y dyfodol, yn dilyn cyhoeddi'r Gyllideb Ddrafft.

3.4 Cytunodd y Gweinidog i rannu â’r Pwyllgor ymateb Llywodraeth Cymru i ymgynghoriad Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol Llywodraeth y DU ar y cynllun rhyddhad ynni i fusnesau, pan fydd ar gael.

3.5 Cytunodd y Gweinidog i ymgysylltu â’r Pwyllgor mewn sgwrs tymor hwy am ddyfodol ardrethi busnes, yn dilyn y Gyllideb Ddrafft.

3.6 Oherwydd cyfyngiadau amser, cytunodd y Cadeirydd i anfon cwestiynau am ymchwil ac arloesi at y Gweinidog ar gyfer ymateb ysgrifenedig.

## 4 Y gost o wneud busnes

4.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan y Ffederasiwn Busnesau Bach, UKHospitality Cymru, Cydffederasiwn Diwydiant Prydain a Chonsortiwm Manwerthu Cymru.

4.2 Cytunodd Cydffederasiwn Diwydiant Prydain i ddarparu gwybodaeth ychwanegol mewn perthynas ag:

- adolygiad cyllideb frys Llywodraeth yr Alban gan gynnwys argymhellion ei phanel o arbenigwyr economaidd;

- ei waith gyda Banc Datblygu Cymru a pha mor aml y mae busnesau sy'n aelodau ohonynt yn cael mynediad at gymorth y banc.

4.3 Cytunodd y Ffederasiwn Busnesau Bach i ddarparu rhagor o wybodaeth am sut mae'r cynllun rhyddhad biliau ynni'n gweithredu ar gyfer cyflenwyr ynni annomestig.

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod ac o'r cyfarfod cyfan ar 14 Rhagfyr 2022.

5.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 6 Preifat

6.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a glywyd yn ystod y sesiwn dystiolaeth flaenorol.

## 7 Blaenraglen waith y Pwyllgor – y rhaglen ddeddfwriaethol

7.1 Trafododd y Pwyllgor ei raglen craffu deddfwriaethol cyn cytuno arni.